


# Cynllun Corfforaethol 2016 - 2020



**Wedi'i adolygu ar gyfer 2017-2018**

## Ein Blaenoriaethau



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**  
**Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Cyflwyniad<sup>1</sup>

Mae'r Cyngor hwn mewn sefyllfa unigryw i ddod â'i wasanaethau ynghyd gyda gwaith asiantaethau eraill, cymunedau, teuluoedd ac unigolion er budd pobl y Sir. Nid yw hyn yn ddim byd newydd. Fodd bynnag, mae'r byd yn newid yn gyflym, a dyna pam ein bod wedi llunio'r ddogfen hon – ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-20, sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn newid a beth fydd ei ffocws dros y pedair blynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu er mwyn ymateb i'r heriau sylweddol a wynebir gan ein cymunedau – yn anad dim y galwadau cynyddol ar lawer o'n gwasanaethau, yn erbyn cefndir o gyllideb sy'n crebachu ac ansicrwydd economaidd.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd cywir, fe ymgynghoron ni'n eang â'n dinasyddion ynghylch ein blaenoriaethau a'r gostyngiadau i'n cyllideb yn ein hymgyngoriad 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' pan ddatblygwyd y Cynllun hwn. Trwy ddefnyddio ystod o ddulliau, cafwyd 1,819 o ymatebion i'r ymgynghoriad (1.3% o'r boblogaeth), yr ystyrir o safbwynt ystadegol ei fod yn faint sampl dilyn. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi dewis y blaenoriaethau cywir i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Darparodd ymatebwyr ystod o awgrymiadau eraill hefyd sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol.

Mae trefn llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn dal i fod yn ansicr, ond byddwn yn cadw ein ffocws ar yr hyn y mae ar ein dinasyddion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei angen.

Mae gennym **weledigaeth** glir a syml ar gyfer y Cyngor hwn, sef gweithredu bob amser fel '**Un Cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau**'. Er mwyn ein galluogi i gyflawni'r weledigaeth hon, mae ein Cabinet wedi rhoi portffolios trawsbynciol ar waith.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn dod yn awdurdod llai, mwy hyblyg ac arloesol sy'n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i greu dyfodol lle mae gan drigolion fynediad at wasanaeth mwy ymatebol ac sydd wedi'i deilwra'n fwy. Bydd hefyd yn golygu bod pobl yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am wneud i hynny ddigwydd, er eu mwyn hwy eu hunain ac er mwyn y gymuned gyfan.

Mae **Ein Gwerthoedd** yn dal heb newid. Mae'r rhain yn cynrychioli'r hyn y mae'r Cyngor yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio:

- Teg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- Uchelgeisiol – yn ceisio gwella'r hyn a wnawn ac yn anelu at ragoriaeth o hyd
- Canolbwyntio ar ddinasyddion – cofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
- Effeithlon – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian

Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn rydym wedi adnabod **Ein Hegwyddorion**. Datblygwyd y rhain er mwyn helpu i lywio'r Cyngor tuag at ddod y math o sefydliad y mae angen iddo fod er mwyn ymateb i heriau newydd:

- Lle bynnag y bo'n bosibl bydd y Cyngor yn cynorthwyo cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy'n mynd yn llai ar y cymunedau a'r unigolion â'r anghenion mwyaf.

---

<sup>1</sup> Hwn yw ein Datganiad Llesiant.

- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i oleuo’i benderfyniadau.
- Bydd y Cyngor yn ysgogi ac yn datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt.
- Ni fydd y Cyngor yn gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrion a phragmatig â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o’r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy’n wahanol heb fod angen.
- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o’i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn dwyn gostyngiadau yn y gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau.

Mae’r egwyddorion hyn yn amlygu pwysigrwydd sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau sy’n diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio â’r trydydd sector, y sector dielw a’r sector preifat, y maent ill tri eisoes yn darparu rhai gwasanaethau ar ran y Cyngor. Yn ein harolwg, ‘Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogrwr’, roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai o wasanaethau’r Cyngor gael eu darparu gan sefydliadau heblaw’r Cyngor. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull hwn trwy gydol oes y cynllun hwn.

### Ein blaenoriaethau

Rydym wedi nodi tri chanlyniad neu flaenoriaeth<sup>2</sup> yn benodol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf. Mae’r canlyniadau hyn wedi’u bwriadu i wella ansawdd bywyd pobl yn y sir gan newid natur y Cyngor yn sylweddol.

Cefnogi economi lwyddiannus	Helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol	Defnyddio adnoddau’n ddoethach
Economi lwyddiannus, gynaliadwy a chynhwysol a fydd yn cael ei chefnogi gan weithlu medrus, uchelgeisiol.	Unigolion a theuluoedd a fydd yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau traddodiadol y Cyngor.	Cyngor sydd â phrosesau darbodus, cadarn a gweithlu medrus. Trydydd sector/sector cymunedol a gefnogir ac sydd â chyfle i ysgwyddo’r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau sy’n diwallu anghenion dinasyddion.

### Ein hamcanion lles

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae’r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu, heb amharu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae’r Cyngor yn benderfynol o roi’r Ddeddf ar waith trwy benodi Aelod Cabinet ar gyfer Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Mae’r Ddeddf yn nodi saith nod cenedlaethol hirdymor:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal

<sup>2</sup> Y blaenoriaethau hyn yw ein hamcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae gennym ni, fel corff cyhoeddus, ddyletswydd i weithio tuag at gyflawni'r saith nod hyn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod ein hamcanion lles a chymryd camau i'w cyflawni. Y tair blaenoriaeth a nodwyd uchod yw ein hamcanion lles. Mae'r nodau o dan bob blaenoriaeth yn y cynllun hwn yn nodi'r hyn yr ydym yn dymuno'i gyflawni. Y gweithrediadau a'r mesurau llwyddo a nodwyd i'w cyflawni yw'r camau y byddwn yn eu cymryd tuag at gyflawni'r amcanion hynny. Trwy'r tri maes blaenoriaethol hyn y byddwn yn cyfrannu fwyaf tuag at y saith nod.

Bydd ein busnes craidd a'n cynlluniau strategol a gweithredol eraill, megis ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20, ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) a'n cynlluniau busnes, hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion a chyfrannu i'r eithaf tuag at y nodau cenedlaethol.

Mae'r Ddeddf yn gofyn i ni wneud pethau mewn modd gwahanol, gan gymhwyso datblygu cynaliadwy i bopeth a wnawn. Rydym yn ymrwymedig i'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a bob amser yn ymddwyn mewn modd sy'n ceisio gwneud yn siŵr bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Bydd y pum ffordd o weithio a ddiffinnir gan y Ddeddf – hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys pobl – yn tanategu popeth a wnawn ac yn ein helpu i wella llesiant yr ardal a gwneud y fwrdeistref sirol yn lle da i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad. Dengys **Atodiad 2** sut y mae'r nodau llesiant, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn ymwneud â'i gilydd.

### **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

Yn 2017-18 bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyllideb gros o bron i £400 miliwn a rhaglen gyfalaf o £42.029 miliwn ar hyn o bryd i gefnogi ein busnes craidd a'r blaenoriaethau corfforaethol a nodir yn y cynllun hwn. Er bod y setliad cyllidebol ar gyfer 2017-18 yn ffafriol o'i gymharu â'r blynyddoedd diweddar, ceir cryn ansicrwydd ynghylch trafodaethau 'Brexit' a bydd disgwyl i'r Cyngor gyflawni gostyngiadau o bron i £34 miliwn yn y gyllideb rhwng 2017-18 a 2020-21. Mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol a'n dyletswyddau statudol, gan gyflawni ein gostyngiadau cyllidebol a rheoli pwysau a risgiau ariannol dros y pedair blynedd diwethaf. Dangosir ein cynllun gwario yn **Atodiad 1**. Gellir gweld ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fanwl yn [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk).

### **Diogelu**

Mae diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn fater y mae'r Cyngor yn ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif. Nodir ein hymrwymiad i ddiogelu ym Mlaenoriaeth Dau y cynllun hwn. Mae'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod 2017-18 wedi'u nodi ar dudalen 13. Mae ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn mynd i'r afael â diogelu fel busnes craidd, wrth gwrs, ond rydym hefyd yn sicrhau bod ystyriaethau diogelu yn dylanwadu ar yr holl wasanaethau ac rydym yn cyflawni swyddogaeth arwain gyda phartneriaid yn y sir. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys datblygu Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth ymhellach fel cam sylweddol ymlaen a chaiff manylion pellach am fesurau diogelu eraill eu hamlygu yng nghynlluniau busnes cyfarwyddiaethau.

### **Gwasanaethau pwysig eraill**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol yr ydym yn dymuno'u newid. Fodd bynnag, mae gennym lawer o wasanaethau craidd a statudol eraill a fydd yn parhau i gael ein sylw. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith fel awdurdod cynllunio, cynnal a chadw priffyrdd a chluddiant

cyhoeddus, casglu gwastraff, glanhau strydoedd, refeniwiau a budd-daliadau, gwarchod y cyhoedd, a chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd trwy ein partneriaid HALO ac Awen. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Ceir mwy o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer y rhain a gwasanaethau eraill yn y cynlluniau busnes sydd ar gael yn ôl y gofyn.

Mae gwella cyrhaeddiad addysgol yn dal i fod yn bwysig iawn inni. Yn y cynllun hwn mae gwelliant parhaus yn y maes hwn yn rhan o amcan ehangach i wella sgiliau a chyrhaeddiad yn fwy cyffredinol. Mae hon yn rhan bwysig y gallwn ni ei chwarae i gefnogi economi lwyddiannus. Yn y Cynllun Corfforaethol hwn rydym yn amlygu'n arbennig ein hymrwymiad i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys. Bydd cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau yn nodi mwy o fanylion o ran sut y byddwn yn cyflawni'r gwelliannau hyn yr ydym yn ymrwymedig iddynt.

### **Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn**

- Rhaglen Drawsnewid ein Cyngor. Rydym wedi cychwyn ar raglen o newidiadau allweddol i wasanaethau a fydd yn helpu i wireddu'r cynllun hwn.
- Rheolaeth ariannol gref. Caiff y cynllun hwn ei ategu gan ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau sy'n crebachu. Mae'n rhaid inni gyflawni gostyngiadau o bron i £34 miliwn yn y gyllideb erbyn 2020-21. Ceir graffiau sy'n dangos o ble y daw ein harian, a sut y byddwn yn ei wario, ar ddiwedd y cynllun hwn.
- Trefniadau rheoli perfformiad cryf. Rydym yn rheoli ein perfformiad yn fanwl ac yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd er mwyn inni allu dyrannu ein hadnoddau'n effeithiol a darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer ein dinasyddion.
- Cynlluniau busnes a chynlluniau gwasanaethau. Caiff y blaenoriaethau yn y cynllun hwn eu cyflawni trwy gamau gweithredu a mesurau a nodir yng nghynllun pob cyfarwyddiaeth/gwasanaeth a chynlluniau perfformiad aelodau unigol o staff.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd trwy ein Hadroddiad Blynyddol. Mae ein hadroddiadau blynyddol blaenorol ar gael yn [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk).

Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

### **Eich sylwadau chi**

Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau chi ar y cynllun hwn. Bydd eich adborth yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol ac fe'i croesewir bob amser.

Gallwch ei roi inni trwy ein gwefan: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk); trwy Twitter: @BridgendCBC; trwy'r e-bost i [improvement@bridgend.gov.uk](mailto:improvement@bridgend.gov.uk); neu drwy ysgrifennu at y Tîm Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.



Y Cynghorydd Huw David  
Arweinydd y Cyngor



Darren Mepham  
Prif Weithredwr

# Blaenoriaeth Un – Cefnogi economi lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y sir yn lle da i gynnal busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y sir.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Os oes gennym economi gref, bydd pobl leol yn cael mwy o gyfleoedd i sicrhau swydd, datblygu gyrfa a gwella eu hincwm ac amgylchiadau teuluol. Gall lefelau tlodi is hybu iechyd a llesiant a chreu cymunedau mwy cydnherth ac arnynt angen llai o wasanaethau. Rydym am i ganol ein trefi a'n busnesau greu cyfoeth, darparu swyddi, denu buddsoddiadau, gwella sgiliau ac annog pobl i ymweld â'r sir. Pan ymgynghorwyd â hwy, roedd 86% o'r dinasyddion yn cytuno ei bod yn bwysig canolbwyntio ar gefnogi economi lwyddiannus.

Mae arwyddion bod economi Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella. Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd rhwng 16 a 64 oed wedi parhau i godi, o 69.9% yn 2013-14 i 70.2% yn 2014-15 ac i 73.2% yn 2015-16. Fodd bynnag, cynyddodd canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio o 17.3% yn 2014 i 19.4% yn 2015, ac mae hyn yn fwy na chyfartaledd Cymru o 13.6%. Bydd y cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at economi carbon isel. Rydym wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun gwresogi carbon isel yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr, wedi cael cyllid (£100,000) i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Cynllun Gwresogi Cwm Llynfi, ac wedi cael cyllid (£125,000) i gyflawni cam nesaf prosiect Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Ceir cryn ansicrwydd ynghylch trafodaethau 'Brexit'. Fodd bynnag, er na allwn ddylanwadu ar ganlyniadau'r trafodaethau, byddwn yn parhau i geisio manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi twf yr economi leol.

## Ein nodau:

- Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol;
- Creu amodau ar gyfer twf a menter; a
- Chreu canol trefi llwyddiannus.

## Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

**Bargen Ddinesig** - Gan weithio gyda Chynghorau cyfagos yn Ne Ddwyrain Cymru, rydym yn ceisio 'Bargen Ddinesig' gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a allai arwain at fuddsoddiad o oddeutu £1 biliwn mewn prosiectau cyfalaf pwysig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**Adolygiad Strategol o Addysg a Hyfforddiant Ôl 16** - Adolygiad strategol i werthuso'r ddarpariaeth addysg a'r cwricwlwm sydd ar gael gyda Coleg Penybont i sicrhau bod opsiynau eglur ar gael i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Rhaglen Economi Lwyddiannus** - cynlluniau adfywio a datblygu lleol allweddol gan gynnwys:

y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda chyllid allanol o £9.6 miliwn, sy'n ailddatblygu Maes Parcio'r Rhiw ym Mhen-y-bont ac yn creu tai fforddiadwy yng nghanol y dref trwy drosi lleoedd gwag uwchben siopau'n llety.

**Alinio Grantiau Llywodraeth Cymru** – byddwn yn symleiddio grantiau pwysig ac yn eu defnyddio'n hyblyg i gefnogi teuluoedd trwy gymorth cynnar a mynd i'r afael â thlodi.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2017-18:

### Nod – Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol

- Parhau i weithio gyda Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas Caerdydd a phrosiectau lleol a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i helpu i lunio cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys parhau i fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth, a datblygu gweithlu medrus i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Gweithio gydag unigolion a theuluoedd sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, sy'n dioddef tlodi mewn gwaith, yn wynebu rhwystrau i weithio neu sydd mewn perygl o dlodi i wella'u cyfleoedd gwaith.
- Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i ddatblygu strategaeth trechu tlodi ac alinio ein hymdrechion gwrth-dlodi'n well er mwyn targedu meysydd lle y mae cyfran gynyddol o aelwydydd di-waith â phlant.
- Gweithio gydag ysgolion i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion heb hawl i brydau ysgol am ddim a gwella canlyniadau dysgwyr ar gyfer grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc.
- Datblygu gweithrediad y Strategaeth Da i Wych i bobl ifanc mwy abl a thalentog na'u cyfoedion i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn.
- Cwblhau'r adolygiad ar gwricwlwm ac ystadau ysgolion cynradd, uwchradd ac addysg ôl-16 a dechrau ymgynghori ar y cynigion, pan fo angen, â'r holl randdeiliaid.

### Nod – Creu amodau ar gyfer twf a menter

- Datblygu a chyflawni Rhaglen Ffocws Buddsoddi Cyrchfan Porthcawl i dyfu gwerth twristiaeth yn yr economi a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth a busnes.
- Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun busnes ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r nod o ddod â mwy o fuddsoddiad a rheolaeth economaidd i'r ardal leol.
- Cefnogi Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr i gyflawni ei gynllun datblygu a'i raglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2017-2018.
- Parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu cynlluniau gwresogi carbon isel Cwm Llynfi a Thref Pen-y-bont ar Ogwr a datblygu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Cynllun Gwresogi arloesol Caerau er mwyn defnyddio ffynhonnell wres naturiol tanddaearol i wresogi cartrefi.

### Nod – Creu canol trefi llwyddiannus

- Buddsoddi yn ein canol trefi i wella cyfleusterau presennol a darparu cyfleusterau newydd gan gynnwys cynlluniau yn Harbwr Porthcawl, Maesteg a Phen-y-bont.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Preifat;
- Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr;
- Coleg Penybont a darparwyr hyfforddiant;
- Partneriaid y Fargen Ddinesig;
- Gyrfa Cymru; a'r
- Ganolfan Byd Gwaith.

## Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

**Nod – Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol**

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Nifer y cyfranogwyr yr ydym yn disgwyl gweithio gyda hwy dan Pontydd i Waith	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		227	134	Prosiect rhanbarthol yw hwn sydd i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2017. Os caiff ei ymestyn, gallai nifer y bobl y byddwn yn gweithio gyda nhw yn ystod 2017-18 gynyddu.
Nifer y prentisiaethau a hyfforddeiaethau a sy'n cael eu creu gan gontractwyr allanol yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau eraill a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr; a b) a dderbynnir gan bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		(a) 4 (b) 2	(a) 4 (b) 2	Rydym wedi cytuno ar bedair prentisiaeth newydd yn 17-18 gan brosiect De Cwm Garw (Ysgol Betws).
Nifer y prentisiaethau sydd ar gael ar draws y sefydliad	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		10	15	Ein nod yw gweld 50% o gynnydd mewn cyfleoedd prentisiaeth.
Cyfradd (%) y prentisiaethau a dderbynnir gan blant sy'n derbyn gofal	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>		Gosod llinell sylfaen		Rydym eisiau hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth ymhlith pobl ifanc 16 oed a phlant sy'n derbyn gofal.
Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio	19.4%	13.6%	Gwrthdroi y duedd	Gwrthdroi y duedd	Dangosodd ein tuedd ei fod ar gynnydd ac roedd ein ffigur gwirioneddol yn uwch na chyfartaledd Cymru. Byddwn yn targedu'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn trechu tlodi.



## Mesurau Addysg

(Mae'r ffigyrau ar gyfer cyflawniad addysgol yn ymwneud â'r flwyddyn academiaidd flaenorol)

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o'r ymadawyr Blwyddyn 11 o ysgolion yn yr Awdurdod a adnabuwyd fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Ystadegau Arolygon Cyrchfannau Blynyddol Gyrfa Cymru	3.2%	2.8%	3.4%	2.8%	Rydym yn hyderus bod ein strategaeth yn effeithiol, a bydd yn caniatáu i ni gyrraedd cyfartaledd Cymru yn 2017/18 a mynd y tu hwnt i hynny mewn blynyddoedd dilynol.
Y ganran o'r ysgolion sy'n cwrdd â'r Mesur Dysgu a Sgiliau o ran y pynciau a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		100% (2016 Gwir.)	100%	Targed yn parhau i fod ar 100% gan fod pob ysgol yn cydymffurfio ar hyn o bryd.
Sgôr pwyntiau cyfartalog TAG ar gyfer dysgwyr 17 oed	777	799.7	810	820	Gosodwyd targed uwch gennym oherwydd ein bod yn hyderus bod ein dull gwella yn effeithiol ac y byddwn yn parhau i gyflawni rhagor o welliant.
Y ganran o'r disgyblion Safon Uwch sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 3	97.6%	Mesur lleol	98.3% (2016 Gwir.)	99%	Rydym yn hyderus bod ein strategaeth wella yn gweithio, a dyna pam bod targed uwch o 99%.
Y ganran o'r disgyblion Safon Uwch sy'n ennill 3 gradd A*-A	5.3%	7.9%	6.1% (2016 Gwir.)	10%	Mae ein targed yn cyfateb â'r ddwy ran o dair o'r disgyblion hynny sydd â'r potensial i gyflawni 3 gradd A* - A ar Safon Uwch ac a fydd yn cyflawni hyn mewn gwirionedd.
Y ganran o'r disgyblion 15 oed, ar y 31 Awst	59.7%	58.3%	61.7% (2016)	63.2%	Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella o

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg			Gwir.)		un flwyddyn i'r nesaf ac mae wedi perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y dangosydd hwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gosodir targed i gynnal y sefyllfa hon.
Maint y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion 15+ sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl (wedi'i fesur yn ôl y dangosydd Lefel 2 cynhwysol)	27.2%	31.2%.	32.5% (2016 Gwir.)	30.1%	Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi amrywio ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y bwlch cyfartalog dros dair blynedd yw 31.7%. Felly, mae targed o 30.1% yn heriol ond yn realistig.

#### Nod – Creu amodau ar gyfer twf a menter

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW/TWE yn y fwrdeistref	4,440	Mesur lleol	Cynnydd	Cynnydd ar ffigur gwir. diwedd y flwyddyn 16-17	Nid yw'n briodol gosod targed penodol ar gyfer y dangosydd canlyniad hwn gan ei fod yn cael ei ddylanwadu gan lawer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.

Y ganran o'r boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn gwaith	70.4%	70.3%	Cynnydd	Cynnydd ar ffigur gwir. diwedd y flwyddyn 16-17	Dangosydd canlyniad o'r boblogaeth yw hwn, felly nid yw'n briodol gosod targed penodol ar ei gyfer a chaiff y canlyniad ei ddylanwadu gan lawer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.
--	-------	-------	---------	---	--

## Nod – Creu canol trefi llwyddiannus

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid	£306.62 miliwn	Mesur lleol	Cynnydd	2% o gynnydd ar ffigur gwir. diwedd y flwyddyn 16-17	Mae ein strategaeth yn gweithio ac mae gennym raglenni ar waith. Felly, rydym yn disgwyl cynnydd mewn gwerth twristiaeth.
Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi (nifer yr ymwelwyr ar gyfer Pen-y-bont, Porthcawl)	5,354,363 3,975,792	Mesur lleol	5,800,000 3,000,000	6,000,000 4,300,000	Mae'r targedau yn seiliedig ar berfformiad calonogol ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn 2016-17.
Nifer y safleoedd gwag yng nghanol trefi	Pen-y-bont 55 Maesteg 19 Porthcawl 17	Mesur lleol	Pen-y-bont 55 Maesteg 19 Porthcawl 17	Pen-y-bont 55 Maesteg 19 Porthcawl 17	Mae tuedd genedlaethol o gynnydd yn y safleoedd gwag. Byddai cynnal lefel net o safleoedd gwag ar lefelau presennol yn gyflawniad mawr gan ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r duedd genedlaethol.
Nifer yr unedau preswyl yng nghanol tref Pen-y-bont sydd wedi  (a) cael caniatâd (b) cael eu cwblhau	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		(a) 8 (b) 28	(a) 30 (b) 14	Targed wedi'i osod ar sail adolygiad o'r gweithgarwch yn 16-17
Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariannwyd â chyllid allanol sy'n mynd rhagddynt/ wrthi'n cael eu datblygu	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		£23 miliwn	£16 miliwn	Targed wedi'i osod ar sail prosiectau arfaethedig.

Defnyddiwyd y ffigur gwirioneddol pryd bynnag yr oedd data ar gael ar gyfer 2016-17. Targedau dros dro sydd wedi'u gosod ar gyfer 2017-18 a gallai'r rhain newid yn sgil y canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2016-17.

# Blaenoriaeth Dau – Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau cynnar i ostwng nifer y bobl sy'n dod, neu i atal pobl rhag dod, yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae rhoi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar adeg gynnar yn gallu helpu pobl a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd a pharhau i fod yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Gwyddom fod plant yn cael budd o amgylchedd teuluol cefnogol sicr a bod y rhan fwyaf o bobl yn hapusach os ydynt yn gallu parhau i fod yn annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl. Gall cymorth o'r fath ei gwneud yn llai tebygol y bydd eu sefyllfa'n gwaethygu ac y byddant yn dod yn ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor.

Mae dull o'r fath yn bwysig nid dim ond i'r rhai ac arnynt angen cymorth gofal cymdeithasol, ond hefyd i'r rhai ac arnynt angen ystod lawn o wasanaethau eraill gan y Cyngor. Rydym yn ymrwymedig i roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy da i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr fel eu bod wedi'u harfogi'n well i reoli sefyllfaoedd eu hunain a bod gwasanaethau'r Cyngor yn gallu canolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf. Dywedodd wyth deg y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg y dylem ganolbwyntio ar helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol ac y dylem flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a phlant.

Trwy adeiladu ar ein hanes o weithio gyda'r trydydd sector, y sector dielw a'r sector preifat, gallwn gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o fynd i'r afael â materion lleol a diwallu anghenion pobl o fewn y gymuned.

## Ein nodau:

- Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth;
- Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar;
- Cynorthwyo gofalwyr i gynnal eu rolau; a
- Chynorthwyo'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.

## Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

### Ailfodelu Gofal Cymdeithasol :

- Mae hon yn rhaglen fawr sy'n cynnwys ailgomisiynu gofal cartref i oedolion, datblygu gofal ychwanegol a gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i bobl a'u gofalwyr.
- Gan weithio gyda phartneriaid rydym yn creu Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth fel un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon ynghylch diogelu.
- Rydym yn bwrw golwg ar ein modelau presennol o ofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc a gofal seibiant ar gyfer plant ag anabledau er mwyn eu targedu yn fwy a'u gwneud yn fwy effeithiol.

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol** – trosglwyddo asedau i gymunedau er mwyn iddynt eu rheoli gan wneud y gorau o'r asedau yr ydym yn eu cadw.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2017-18:

### Nod - Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

- Parhau i wella'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy da i'r cyhoedd, gan gynnwys cynyddu'r cymorth sydd ar gael trwy gydgyssylltwyr cymunedol lleol.
- Parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau yn y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

### Nod - Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar

- Rhoi model gwasanaeth preswyl 52 wythnos newydd ar waith i blant a phobl ifanc anabl.
- Sefydlu model newydd o ddarpariaeth breswyl i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Cwblhau model gwasanaeth pontio i helpu plant anabl i symud yn ddiadrfferth i fywyd oedolyn.
- Gweithio gydag aelwydydd a phartneriaid i helpu i atal digartrefedd, gan gynnwys cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael gafael ar lety priodol.
- Cynyddu ymgysylltiad partneriaid, gan gynnwys ysgolion, yn y defnydd o brosesau'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), sy'n ceisio sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi yn gynnar a bod cymorth yn cael ei ddarparu i blant a theuluoedd.
- Sicrhau bod pob gwasanaeth sydd ar gael yn gweithio'n well gyda'i gilydd i ddarparu cymorth didor i blant sy'n agored i niwed pan fydd ei angen a'u hatal rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal.

### Nod - Cynorthwyo gofalwyr i gynnal eu rolau

- Gweithio gyda phartneriaid ac ysgolion i gefnogi gofalwyr trwy roi'r wybodaeth, cyngor a chynhorthwy cywir pan fo'n berthnasol.
- Recriwtio a chadw gofalwyr ar draws y gwasanaethau maethu amrywiol.

### Nod - Cynorthwyo'r trydydd sector, cyngorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol

- Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau o fewn cymunedau lleol.
- Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Partneriaid Bae'r Gorllewin;
- Partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y Trydydd Sector; a
- Defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

## Mae'r Flaenoriaeth hon yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

Nod – Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
<p>Nifer yr a) oedolion a'r b) plant a gafodd gyngor a chynhorthwy gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn ystod y flwyddyn</p> <p><i>Mae'r diffiniad o'r mesurau hyn yn parhau i gael ei adolygu yn genedlaethol, ond y bwriad yw bod hwn yn mesur cyfran y bobl sy'n dod atom am gyngor a chynhorthwy ac sydd, trwy'r cymorth hwn, yn cael eu hatal rhag mynd yn ddyfnach i'r system ofal cymdeithasol.</i></p>	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer (a) a (b)	(a) 30%  (b) 30%	Hyd oni cheir eglurder cenedlaethol o ran y diffiniadau, mae'n anodd gosod targed y gwyddom y bydd yn cydymffurfio â'r diffiniad cenedlaethol (e.e. gallai ALLau eraill gyfri materion tai ac ati gan eu bod yn yr un gyfarwyddiaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol.) Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd ein hymateb i'r dull newydd hwn yn effeithiol ac rydym yn disgwyl i'r ganran gynyddu o un flwyddyn i'r llall.
<p>Y ganran o bobl sy'n fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant</p> <p>(a) Plant rhwng 7 a 17 oed (b) Oedolion 18+ oed</p>	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Sefydlu llinell sylfaen (data arolwg ar gael ym mis Ebrill 2017)	(a) 55%  (b) 65%	Rydym yn ceisio sicrhau bod pobl yn fodlon â'r gofal a'r cymorth y maent yn ei gael, ond rydym yn sylweddoli bod lefel y boddhad yn debygol o fod yn uwch ymhlith oedolion na phlant mewn angen oherwydd bydd yr ymyrraeth â'r plant ar adeg pan fyddant mor agored â phosibl i niwed. Mae'r elfen sy'n ymwneud â phlant yn newydd ac mae'r arolygon a anfonwyd allan yn 2016-17 yn dal i gael eu dadansoddi.

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
<p>Y ganran o'r oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi a, chwe mis yn ddiweddarach:</p> <p>a) sydd â phecyn llai o ofal a chymorth neu</p> <p>b) heb becyn gofal a chymorth</p> <p><i>Mae'r diffiniad o'r mesurau hyn yn parhau i gael ei adolygu yn genedlaethol.</i></p>	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Sefydlu llinell sylfaen	60%	Hyd oni cheir eglurder cenedlaethol o ran y diffiniadau, mae'n anodd gosod targed y gwyddom a fydd yn cydymffurfio â'r diffiniad cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd ein hymateb i'r dull newydd hwn yn effeithiol ac rydym yn disgwyl i'r ganran gynyddu o un flwyddyn i'r llall.
Nifer y bobl sydd wedi'u hallgyfeirio o wasanaethau prif ffrwd i'w helpu i aros yn annibynnol am gymaint o amser â phosibl	129	Mesur lleol	130	200	Mae'r targed yn seiliedig ar berfformiad presennol (dangosir 134 yn Ch3, felly byddai 200 yn welliant). Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar hyn gan ei fod yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o agweddau craidd ar waith y cyfarwyddiaethau.



**Nod - Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar**

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o'r bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, y mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddarparu llety priodol iddynt  <i>Mae isel yn dda. Gorau i gyd po leied o bobl sy'n dod yn ddigartref.</i>	32.43%	35.80%	23.60%	14.07%	Blaenoriaeth y Cyngor yw atal digartrefedd. Mae gennym strategaeth ar waith, a dyma'r rheswm dros y targed is.
Y ganran o'r bobl sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn  <i>Nid yw'r cyfrifiad digartrefedd ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys y rhai hynny sy'n cysgu ar strydoedd yn unig. Mae hefyd yn cynnwys y rhai hynny sy'n cysgu ar sofffa ffrindiau / lleoedd gwely a brecwast ac ati.</i>	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Sefydlu llinell sylfaen	<15%	Blaenoriaeth y Cyngor yw atal digartrefedd. Mae'r data ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn rhagweld y bydd ar 14% erbyn diwedd y flwyddyn 16-17.
Y ganran o'r plant a gafodd gymorth i barhau i fyw o fewn eu teulu	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		65%	65%	Gan fod y boblogaeth o Blant mewn angen, Plant sy'n derbyn gofal a'r rhai dan drefniant Amddiffyn Plant yn sefydlogi, nid yn dirywio, mae'r targed canrannol yn parhau i fod yn heriol, felly rydym wedi ymrwymo i'r un gyfran am y flwyddyn nesaf.
Am faint o amser ar gyfartaledd y caiff pobl hŷn (65 oed a throsodd) eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		1055 diwrnod	1000 diwrnod	Mae hwn yn darged sy'n gwella. Rydym yn credu po leied o amser a dreulir mewn cartrefi gofal, gorau i gyd gan fod hyn yn arwydd o fyw o fwy annibynnol.

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	13.7%	9.8%	12%	12%	Mae'r targed yn seiliedig ar berfformiad, nawr ac yn y gorffennol, ac ar yr wybodaeth am y boblogaeth o Blant sy'n derbyn gofal, sy'n sefydlogi ond nid yn dirywio. Dengys Ch3 13.2%. Mae'r targed o 12 y cant yn parhau i fod yn heriol, felly rydym wedi ymrwymo i'r un gyfran am y flwyddyn nesaf.
Y ganran o'r plant a gafodd ymyrraethau Cysylltu Teuluoedd yn ystod y flwyddyn ac a oedd yn parhau i fod allan o'r system ofal ar 31 Mawrth y flwyddyn honno	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>			80%	Mae'r targed o 80% yn dangos 5% o welliant, gan fod y data sydd gennym ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â'r cyfnod o 24 mis rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2016, yn dweud wrthym fod 75% o'r plant a gafodd ymyrraeth Cysylltu Teuluoedd wedi aros allan o'r system ofal (h.y. cafodd 144 o blant ymyrraeth Cysylltu Teuluoedd ac, o'r rheini, arhosodd 108 ohonynt allan o'r system ofal).
Y ganran o'r unigolion a drafodwyd yn y Panel Pontio sydd â chynllun pontio ar waith erbyn eu bod yn 17 oed	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>			100%	Mae'n bwysig bod gan bob plentyn 17 oed gynllun pontio ar waith, felly gosodwyd targed o 100%.

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
<p>Y ganran o'r cynlluniau cymorth a gwblhawyd gan TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) sy'n dod i ben â chanlyniadau llwyddiannus</p> <p><i>Mae TAF yn cyfeirio at y model cymorth sy'n goruchwyllo ac yn cydgysylltu'r ymyraethau y mae teuluoedd yn eu cael trwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Disgwylir i TAF ystyried anghenion y teulu cyfan a chydgyssylltu asiantaethau lluosog i ddarparu gwasanaeth didor i'r teulu unigol.</i></p>	Dangosodd y data diweddaraf (2015-16) gyfradd dod i ben o 50%, a'r cyfartaledd cenedlaethol oedd 59%.			60%	Ein nod yw cynyddu cyfradd y llwyddiant o un flwyddyn i'r llall. Mae'r cynnydd o 10% yn heriol, ond gellir ei gyflawni.

### Nod - Cynorthwyo gofalwyr i gynnal eu rolau

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o'r bobl sy'n credu eu bod yn gallu byw yn fwy annibynnol o ganlyniad i addasiadau i'w cartrefi	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>			75%	Mae'r targed ar gyfer y dangosydd newydd hwn yn seiliedig ar astudiaethau cyfredol sydd wedi'u cynnal ar effeithiolrwydd addasiadau i dai.
Y ganran o ofalwyr oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion drwy eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn	95.3%	91.4%	94.0%	96.0%	Gosodwyd y targed gyda'r nod o yrru gwelliant perthnasol yn erbyn perfformiad blaenorol.
Y ganran o ofalwyr ifanc hysbys sydd â chynllun gofal a chymorth diweddar ar waith	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>			90%	Mae'r targed yn cydnabod y bydd rhai gofalwyr ifanc yn dewis peidio ag ymgysylltu neu'n credu nad oes angen iddynt ymgysylltu.

**Nod - Cynorthwyo'r trydydd sector, cyngorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol**

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Nifer y grwpiau cymunedol sy'n defnyddio pecynnau cymorth i reoli asedau a drosglwyddwyd	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		3	6	Rydym eisiau dyblu nifer y grwpiau a gaiff cymorth yn y modd hwn.
Nifer yr oedolion a gafodd wasanaeth a ddarparwyd trwy fenter gymdeithasol, cwmni cydweithredol, gwasanaeth a arweinir gan ddefnyddwyr neu sefydliad trydydd sector yn ystod y flwyddyn	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Sefydlu llinell Sylfaen	175	Mae'r targed wedi'i osod ar sail gwaith parhaus i ddatblygu'r maes hwn a chanlyniadau hanner blwyddyn cryf o 2016-17.
Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r Cyngor a drosglwyddwyd i'r gymuned i'w rhedeg	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		5	5	Rydym eisiau trosglwyddo 5 ased arall i'r gymuned i'w rhedeg, er mwyn dyblu ein cyfanswm.

(Noder: Cyflwynir fframwaith perfformiad newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Golyga hyn fod llawer o ddangosyddion a mesurau perfformiad newydd. Mae rhywfaint o drafodaeth genedlaethol yn parhau ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y dangosydd, ac mae hyn wedi gwneud y gwaith o osod targedau ar gyfer 2017-18 yn anodd.)

Targedau dros dro sydd wedi'u gosod ar gyfer 2017-18 a gallai'r rhain newid yn ôl y canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2016-17.

## Blaenoriaeth Tri – Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ein holl adnoddau (yn rhai ariannol, ffisegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ac yn rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i wireddu blaenoriaethau'r Cyngor.

### Pam fod hyn yn bwysig?

Dros y pedair blynedd nesaf disgwylir i'r Cyngor gyflawni gostyngiad o bron i £34 miliwn yn y gyllideb. Eleni, fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i o leiaf 50% o'r gostyngiad cyllidebol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn trwy ddefnyddio adnoddau'n ddoethach, ac felly leihau'r effaith ar wasanaethau. Wrth i'r cynni cyllidol barhau mae'n dod yn anos cyflawni gostyngiadau pellach yn y gyllideb bob blwyddyn, ond rydym yn parhau i geisio ffyrdd o weithio a fydd yn arbed arian inni, yn bennaf trwy ddefnyddio ein hadeiladau, ein pobl a'n gwariant yn ddoethach.

Yn ein hymgyngoriad â'r cyhoedd canfuom fod 76% (825 o ymatebwyr) yn cytuno eu bod yn fodlon i rai o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu gan sefydliadau eraill. Darparu gwasanaethau ar-lein oedd y mesur mwyaf poblogaidd yn yr ymgyngoriad ar y Cynllun hwn ar gyfer gostwng y gyllideb. Fe ofynnion ni hefyd am awgrymiadau eraill am ffyrdd y gallai'r Cyngor arbed arian yn y dyfodol. O'r ymatebion a gafwyd, yr awgrym mwyaf poblogaidd, a nodwyd gan 225 o ymatebwyr, oedd lliflinio'r Cyngor, ein gweithlu, ein swyddfeydd a'n prosesau. Byddwn yn gwneud y pethau hyn, a mwy, i sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddoethach.

### Ein nodau:

- Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau;
- Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion;
- Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid; a
- Gwneud y gorau o'n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau.

### Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

**Y Rhaglen Trawsnewid Digidol** - newid y ffordd yr ydym yn gweithredu i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ar-lein.

**Rhesymoli ystâd y Cyngor** - gwaredu asedau, trosglwyddo asedau i gymunedau eu rheoli a gwneud y gorau o'r asedau y byddwn yn eu cadw.

**Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** – buddsoddi mewn cyfundrefn addysg gynaliadwy mewn adeiladau ysgolion sy'n lleihau costau a'u hól troed carbon.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2017-18:

### **Nod – Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

- Gweithredu'r gostyngiadau arfaethedig i'r gyllideb a nodwyd yng nghyllideb 2017-18.

### **Nod – Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau**

- Cynyddu nifer y dinasyddion sy'n defnyddio ein system ar-lein i reoli eu treth gyngor a'u cyfrifon budd-daliadau tai a chyflawni arbedion ariannol.
- Gwneud y rhan fwyaf o brosesau mewnol cyffredin yn rhai awtomatig er mwyn lleihau costau trafodion a lliflinio prosesau
- Cyflawni'r prosiect masnacheiddio ysgolion er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau cyfunol sydd ar gael i gefnogi ysgolion.

### **Nod – Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion**

- Darparu ysgolion newydd a gwell trwy gyflawni'r rhaglen moderneiddio ysgolion.
- Rhesymoli ystâd weinyddol y Cyngor ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o un prif swyddfa erbyn mis Mawrth 2018.
- Datblygu dull o fasnacheiddio asedau'r Cyngor.
- Marchnata'r rhan o safle Tre-dŵr sy'n mynd i fod yn wag ar gyfer y datblygiad tai dan gynllun Parc Afon Ewenni
- Gweithredu mesurau lleihau ynni a charbon a hybu arfer da yn ein holl adeiladau cyhoeddus i'w helpu i leihau eu hól troed carbon.
- Adolygu'r gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau ei fod wedi'i alinio â'r amcanion corfforaethol.

### **Nod – Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid**

- Cefnogi rheolwyr i arwain staff trwy newid sefydliadol.
- Darparu'r cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer staff i ddiwallu anghenion gwasanaethau yn y dyfodol.
- Gwella ein dealltwriaeth o safbwyntiau dinasyddion trwy ddatblygu a hyrwyddo mecanweithiau sy'n cynyddu'r ymatebion i ymgynghoriadau.

### **Nod – Gwneud y gorau o'n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau**

- Adolygu prosesau a threfniadau caffael er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau trwy e-gaffael a defnyddio trefniadau cenedlaethol a rhanbarthol
- Monitro'r gofrestr o gontractau corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chyfleoedd i gydgyrnhoi gwariant.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Cyflogeion;
- Ysgolion;
- Contractwyr; ac
- Undebau Llafur.

## Mae'r Flaenoriaeth hon yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnherth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

Nod – Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o'r gostyngiadau yn y gyllideb a gyflawnwyd	92.5%	Mesur lleol	100%	100%	Gostyngiadau yn y gyllideb wedi'u cynllunio i gyflawni'r holl arbedion sydd eu hangen.

Nod - Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o gwsmeriaid y Dreth Gyngor sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein trwy 'fy nghyfrif'	0%	Mesur lleol	30%	50%	Mae'r targed gwell wedi'i osod ar sail perfformiad presennol a chynlluniau dyrchafu.

Nod – Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Cymhareb o ran staff i ddesgiau yn y Swyddfeydd Dinesig	6:5	Mesur lleol	3:2	3:2	Rhesymoli'r manau gwag. Mae'r ffigurau targed wedi'u seilio ar ryddhau Cwrt y Gigfran.
Cyrraedd y targed ar gyfer derbyniadau cyfalaf	£5.9 miliwn	Mesur lleol	£4 miliwn	£1.5 miliwn	Helpu i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Mae'r ffigur targed wedi'i seilio ar y gwarediadau posibl ar gyfer 17-18.

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y newid canrannol mewn allyriadau carbon yn y stoc o adeiladau cyhoeddus annomestig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol	8.28%	Mesur lleol	3%	3%	Gosodir y targed sefydlog gan Lywodraeth Cymru.
Incwm a gynhyrchwyd o bortffolio eiddo anweithredol y Cyngor	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18</i>		Incwm ychwanegol o £25 mil y flwyddyn	I gyflawni arbedion yr MTFs. Mae'r ffigur targed wedi'i seilio ar gyfleoedd posibl i gynyddu incwm o fewn yr ystâd anweithredol yn 17-18.	

### Nod – Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALI) yn yr awdurdod lleol a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch	10.85	9.9	8.5	8.5	Mae cynnal y targed ar y lefel bresennol yn heriol yn erbyn y perfformiad presennol.
Nifer yr achosion o ryngweithio gan ddinasyddion ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook a Twitter)	28,875	Mesur lleol	10% o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol	5% o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol	Mae'r targed yn seiliedig ar berfformiad cryf am ran o'r flwyddyn yn 2016-17.
Y ganran o'r cyflogeion a gwblhaodd modiwlau e-ddysgu	43.07%	Mesur lleol	40%	45%	Mae'r targed sy'n gwella yn seiliedig ar y perfformiad presennol yn erbyn y targed.
Nifer y rheolwyr sy'n cael hyfforddiant i wella'u sgiliau rheoli pobl (gan gynnwys rheoli absenoldebau)	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		Dangosydd newydd (235 wedi cwblhau hyfforddiant)	200	Staff ychwanegol i'w hyfforddi yw'r targed o 200, gan ystyried



Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
					trosiant y staff a lefel yr hyfforddiant a wnaed yn flaenorol.


**Nod – Gwneud y gorau o’n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau**

Mesur	Gwir. 2015-16	Cyfartal. Cymru 2015-16	Targed 2016-17	Targed 2017-18	Rhesymeg dros y targed
Y ganran o’r tendrau uwchlaw trothwy’r UE yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sy’n cydymffurfio	<i>Dim data. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17</i>		100%	100%	Byddai perygl o lai o effeithlonrwydd pe bai llai na 100% yn cydymffurfio.


Targedau dros dro sydd wedi’u gosod ar gyfer 2017-18 a gallai’r rhain newid yn ôl y canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2016-17.

## Atodiad 1 – Amlinelliad o’n hincwm a’n gwariant

Mae’r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer 2017-18. Incwm referniw gros y Cyngor ar gyfer 2017-18 yw £394 miliwn.




## Ble y Bydd yr Arian yn Cael Ei Wario – Gwariant Refeniw Gros 2017-18 £0'000




Sylwer: Mae **Swyddogaethau Corfforaethol** yn cynnwys Costau Cyllid Cyfalaf, Praeseptau ac Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflog a phrisiau. Mae **Adfywio a Datblygu** yn ymwneud â gwariant cyfalaf yn bennaf.


Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, cynyddu asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. Mae'r gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017-18 yn dod i £63.854 miliwn. Mae'r siartiau isod yn darparu manylion y meysydd gwasanaeth lle y mae gwariant cyfalaf arfaethedig a sut bydd y gwariant yn cael ei ariannu yn ystod y flwyddyn.



## Ffynonellau Cyllid Cyfalaf yn 2017-18 £0'000



Mae gan yr awdurdod gyllideb referniw net o £258,093 miliwn sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i wasanaethau craidd a swyddogaethau statudol. Caiff y gyllideb net ei chyllido gan Grant Cymorth Refeniw, Cyfraddau Annomestig (NDR) ac incwm y Dreth Gyngor, ac nid yw'n cynnwys incwm o ffynonellau ariannu eraill megis grantiau eraill gan y llywodraeth, derbyniadau gan gwsmeriaid a chleientiaid, a llog sy'n ariannu'r gwariant referniw gros. Mae'r siart isod yn darparu manylion am sut y mae'r gyllideb referniw net wedi'i dyrannu ar gyfer 2017-18.



## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i rhoi ar waith i wneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn gwneud popeth y gallant i gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant hirdymor, yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, ac yn diffinio 5 ffordd o weithio y bydd angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r diagram isod yn dangos sut y mae'r saith nod cenedlaethol, y datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn plethu gyda'i gilydd.



Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan wneud yn siŵr ein bod yn rhoi ystyriaeth, wrth wneud penderfyniadau, i'r effaith y gallant ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru ac ar y dyfodol.